## Dydd Gwener y Groglith

### Y Groglith

### Darllen Luc 23: 44–46

Bellach, mae'r daith a gychwynnodd ym mryniau Galilea yn prysur ddirwyn i ben. Troes dysgeidiaeth gyson Iesu ynglŷn â chodi'r groes a'i ganlyn ef yn ffaith weladwy wrth i Simon o Cyrene gael ei orfodi i gario'i groes. Mae'r hwn a fynnodd, gydol ei weinidogaeth, ei fod wedi dod i alw pechaduriaid i edifeirwch yn cael ei groeshoelio rhwng dau derfysgwr. Mae'r trawsbren a gariodd Simon yn cael ei gysylltu â'r pren fertigol gyda pheg pren, ac Iesu'n cael ei hoelio arno. Tarddodd y dull hwn o ddienyddio o Bersia, ac fe'i mabwysiadwyd gan y Rhufeiniaid i gosbi gwrthryfelwyr. Prin yw adroddiadau'r efengylau am erchyllterau'r math hwn o ddienyddio, ond maent yn cofnodi geiriau Iesu yn ystod ei wewyr a'i artaith. O edrych ar adroddiadau'r efengylau am y Croeshoelio gyda'i gilydd, gwelir fod Iesu wedi llefaru o leiaf saith o weithiau oddi ar y groes. Gofynnodd i Dduw faddau i'w erlidwyr; addawodd baradwys i un terfysgwr; a chofiodd am ei fam a'i rhoi yng ngofal Ioan. Yng nghanol y frwydr fawr dyfynnodd o Lyfr y Salmau, 'Fy Nuw, fy Nuw pam yr wyt wedi fy ngadael?' (Salm 22:1), ac yna cofiodd am ei angen ei hun, 'Y mae arnaf syched' (Ioan 19:28). Ond mae'r frwydr yn cyrraedd ei hanterth gyda'r geiriau gorfoleddus, 'Gorffennwyd' (Ioan 19:30) ac 'O Dad, i'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd' (Luc 23:46). Mae'r daith wedi'i chyflawni a'r fuddugoliaeth yn llwyr. Nid cri o anobaith oedd geiriau olaf Iesu ond cadarnhad o ymddiriedaeth ffyddlon i'r diwedd. Er bod Iesu wedi ei draddodi i ddwylo dynion mae'n ei gyflwyno ei hun i ddwylo Duw. Barn y canwriad a safai wrth droed y groes oedd mai dyn cyfiawn oedd hwn. Er ei fod yn gorfforol wan, roedd Iesu'n gryf; ac er ei fod yng nghanol llygredd a phechod dyn mae'r un cyfiawn hwn yn gorchfygu. A llwyddodd y canwriad Rhufeinig, caled i gyhoeddi mai dieuog oedd y gŵr hwn.

Cyn gadael gwewyr Golgotha, mae'n werth cofio bod y gwragedd wedi aros yno i wylio'r erchyllterau. Roedd y rhain wedi dilyn Iesu o Galilea. Ac yn awr, gan sefyll o hirbell, maent yn dystion o'r diwedd. Yn ôl pob hanes, roedd Mair ei fam yno'n gwylio. Ioan yw'r unig un o'r disgyblion sydd yno. Mae tystiolaeth y criw bach hwn yn allweddol i weddill y stori. Gwelsant Iesu'n marw ar y groes, ac mae'r gwragedd yn dilyn Joseff o Arimathea: 'Fe ddilynodd y gwragedd oedd wedi dod gydag Iesu o Galilea, a gwelsant y bedd a'r modd y gosodwyd ei gorff' (Luc 23:55). Roedden nhw'n bresennol, ac felly'n allweddol i dystiolaeth y trydydd dydd. Myfyriwn ar eiriau Iesu ar y groes.

**Myfyrdod pellach:**
Sut mae Croes Crist yn cyffwrdd â ni heddiw? Beth mae'r geiriau a lefarodd Iesu ar y groes yn ei ddweud wrthym ni?
Beth ydi ystyr 'codi'r groes' i'r Cristion heddiw?

***Huw John Hughes***